

RHAGARWEINIAD

Croeso

Croeso i'r 'Ffordd i Ryddid'. Bob Garawys, wrth iddynt edrych ymlaen at y Pasg, bydd Cristnogion o bob traddodiad yn ceisio dyfnhau ei dealltwriaeth o beth yw ystyr canlyn Iesu. Cynigir y cwrs chwech wythnos hwn i gynulleidfaoedd lleol a phlwyfi a, lle bynnag y bo'n bosibl, i grwpiau o bobl o wahanol eglwysi sydd am gwrdd yn eciwmenaidd i archwilio'u galwad gyffredin i fod yn ddisgyblion yn y byd heddiw.

Y thema

Ymddengys nad oes yr un gair pwysicach inni heddiw na'r gair 'Rhyddid'. Ond y mae ei ystyr yn aneglur ac yn aml yn ddadleuol. Mae'n air pwysig yn y Testament Newydd ac yn y stori Gristnogol gydol yr oesau. Ond beth yn union yw 'rhyddid Cristnogol' a beth yw ei berthynas â mathau eraill o 'ryddid' y dywedwn ein bod yn rhoi gwerth arnynt mewn cymdeithas?

Seiliwyd y cwrs ar y gerdd 'Gorsafoedd ar y Ffordd i Ryddid' a ysgrifennwyd mewn carchar yn 1944 gan Dietrich Bonhoeffer, y gweinidog a'r diwinydd Lutheraidd o'r Almaen a ddienyddiwyd gan y Natsïaid am wrthwynebu Hitler. Ddeuddeng mlynedd yn gynharach, yn 1932, dywedasai: '*Bod yn rhydd yw bod mewn cariad, bod yng ngwirionedd Duw. Y sawl sy'n caru am iddo gael ei ryddhau gan wirionedd Duw yw'r person mwyaf chwyldroadol ar y ddaear*'; a'r geiriau olaf o'r eiddo a gofnodwyd, pan aethpwyd ag ef ymaith i wynebu'i brawf olaf a'i ddienyddiad, oedd: '*Dyma'r diwedd – i mi dyma ddechrau bywyd*'. Nid astudio Bonhoeffer ei hun y byddwn, ond ei ddefnyddio fel man cychwyn i fyfyrion ar ein hymchwil am ryddid yn ein profiad ein hunain, ym mywyd ein heglwysi ac yn yr hyn sy'n digwydd yn ein cymdeithas a'n byd heddiw – a'r cwbl yng ngoleuni darllen y Beibl.

Strwythur y cwrs

Mae'r cwrs yn cynnwys chwe sesiwn wythnosol, yn cyfateb i chwe Sul y Garawys ac yn gorffen ar Sul y Blodau. Daw themâu wythnosau 2, 3, 5 a 6 o deitlau pedwar pennill cerdd Bonhoeffer, 'Gorsafoedd ar y Ffordd i Ryddid': Disgyblaeth, Gweithredu, Dioddef, Marw.

Wythnos 1 *Beth yw rhyddid?* Dywedodd Iesu: 'Cewch wybod y gwirionedd, a bydd y gwirionedd yn eich rhyddhau'. Sut y mae cysoni hyn ag agweddau cyfoes? Does yr un syniad mwy poblogaidd yn y byd Gorllewinol heddiw na'r syniad o 'ryddid i ddewis'. Pam fod hyn mor bwysig inni? Sut y mae gwahaniaethu rhwng 'rhyddid yr unigolyn' a 'thrachwant unigolyddol'? Pwy yw'r bobl sy'n arddangos 'rhyddid' heddiw? A oes mathau arbennig o ryddid sydd dan fygythiad yn ein cymdeithas gyfoes?

Wythnos 2 *Disgyblaeth*. Ystyrir yn aml bod 'rhyddid' a 'disgyblaeth' yn bethau croes i'w gilydd. Rhydd stori tentio Iesu ddarlun gwahanol. Pa gyfyngiadau a rhwystrau y

dylem eu derbyn yn ein cymdeithas brynwriaethol heddiw? Beth sydd gan draddodiadau disgyblaeth ysbrydol – y bywyd mynachaid, er enghraifft – i'w ddysgu inni? Ai dim ond cynyddu posibiliadau datblygu'r ddynolryw y mae gwyddoniaeth a thechnoleg neu a ydynt yn galw am fathau newydd o gyfrifoldeb disgybledig mewn byd a 'daeth i oed'?

Wythnos 3 Gweithredu. I lawer o bobl heddiw golyga 'rhyddid' fyw mewn cocŵn diogel o hunan-fwynhad, heb ofidio dim am y byd o'u cwmpas heblaw beirniadu'i ddiffygion o safle diberygl. Sonia Bonhoeffer, fodd bynnag, am 'ddewrder sifil' – y parodwydd i herio camwri cyhoeddus a dyrchafu cyfiawnder beth bynnag y peryglon personol – fel elfen hanfodol o ryddid. Ym mha le ac ym mha fodd y mae angen am hyn heddiw, hyd yn oed ar lefel leol, a pha fath o bobl sy'n gwneud hynny?

Wythnos 4 ('Sul y Fam'). *Yr eglwys fel cymuned.* A ellir cael rhyddid heb gymuned? Pa fath o gymuned y gelwir yr eglwys i fod – ai dim ond cymuned sy'n groes i'r gymdeithas o'i chwmpas ydyw neu a ddylid cydblethu ei bywyd â bywyd y gymuned ehangach? Ymdrecha llawer o eglwysi i fod yn gymunedau agored, cariadus a maddeugar, ac eto cânt hi'n anodd i fod 'o un meddwl' – a deil rhai pobl i deimlo eu bod wedi eu cau allan. A ydym efallai yn gor-ddelfrydu'r hyn y dylai eglwys fod? Y mae, fodd bynnag, esiamplau da o eglwysi lleol yn cael bywyd a rhyddid newydd drwy ymgysylltu o'r newydd â'u cymdogaeth.

Wythnos 5 (Sul y Dioddefaint). *Dioddef.* Dywed llawer o bobl heddiw mai maint y dioddef a welant yn y byd yw'r prif reswm pam na allant gredu yn Nuw. Ac eto y mae llawer o bobl sy'n credu yn Nuw wedi dioddef yn fawr eu hunain, a rhai ohonynt yn dweud mai dyna beth a'u tynnodd yn nes at Dduw. Yn ôl Bonhoeffer, ffydd yw 'rhannu yn nioddefiadau Duw yn y byd'. Wrth inni fyfyrion ar storïau gwir am bobl a chymunedau a ddioddefodd yn fawr yn ystod ein hoes ni, ac ymdrechion eu ffydd, a allwn ni yn wir weld dioddef fel ffordd i ryddid?

Wythnos 6 (Sul y Blodau). *Marw.* Wrth fynd i Jerwsalem dengys Iesu inni y rhyddid eithaf – rhyddid cariad yn marw drosom ac yn agor inni 'borth y nefoedd'. Sut y byddwn yn meddwl am y 'nefoedd' a'r 'bywyd tragwyddol'? Ond hefyd, y mae eraill yn ein byd heddiw yn barod i roi eu bywyd dros yr hyn y maent yn credu ei fod yn iawn, er enghraifft terfysgwyr o hunanladdwyr. Ystyriai llawer ei bod yn gyfiawn ac yn angenrheidiol lladd Osama Bin Laden, fel yr oedd y cynllwyn yn erbyn Hitler yr oedd Bonhoeffer yn rhan ohono ac a gostiodd ei fywyd iddo. A oes yna'r fath beth â 'dienyddio cyfiawn'? A yw'n bosibl torri cylch treisgar ein byd? Beth yw ystyr 'cario'r groes' i ni heddiw? A pha fath o obaith mewn difrif y mae'r atgyfodiad yn ei gynnig inni?

Er bod yn wythnosau 4, 5 a 6 gysylltiad clir â Sul y Fam, Sul y Dioddefaint a Sul y Blodau, dylid nodi na fydd yn yr un wythnos union gyfatebiaeth rhwng y darlenniadau Beiblaidd a awgrymir at eu hastudio a'r darlenniadau yn y llithiaduron a ddefnyddir yn gyffredin ar y Sul. Er enghraifft, y mae stori temtio Iesu, a ddarllenir fel rheol ar y Sul cyntaf yn y Garawys, yn ymddangos yn wythnos 2 y cwrs. Fodd bynnag, ni ddylai hyn rwystro cysylltu'r themâu'n gyffredinol ag addoliad y Sul a'r bregeth, nac i'r gwrthwyneb.

Y deunyddiau

Cynnwys pob wythnos gymysgedd o ddeunyddiau myfyrdod, darnau o'r Beibl, esboniad i'w astudio a'i drafod, cyfraniadau a 'thystiolaethau' gan bobl gyfoes (enwogion weithiau ond, gan amlaf Cristnogion 'cyffredin'), barddoniaeth, cwestiynau a syniadau i'w trafod ac weithiau awgrymiadau am bethau i'w gwneud.

Peidiwch â digalonni o dybio bod yna ormod o ddeunydd i fynd trwyddo mewn un sesiwn!

Bydd yn rhaid i chwi ddethol yr hyn sy'n fwyaf defnyddiol (neu heriol) i chwi yn eich cyd-destun eich hun, a pha gwestiynau sydd fwyaf perthnasol i chwi. Golyga hyn, wrth gwrs, fod gwaith yr arweinwyr yn dra phwysig, yn enwedig wrth baratoi at bob cyfarfod.

Sut i ddefnyddio'r cwrs

Rhagwelwn mai grwpiau gweddol fach fydd yn dilyn y cwrs, y math o grŵp a all gwrdd mewn tŷ neu eglwys neu rywle arall addas i astudio a thrafod yn anffurfiol. Gall cynulliadau mwy ymrannu'n grwpiau bychain am ran o'r amser.

Fel y soniwyd eisoes, bydd yn rhaid dethol rhywfaint ar y deunydd a'r pynciau trafod bob wythnos. Mae'n bwysig, fodd bynnag, cynnwys bob amser rywfaint o'r astudiaeth Feiblaidd.

Bydd yn rhaid i arweinyddion y grwpiau baratoi'r sesiynau ymhell ymlaen llaw a golyga hyn ofyn i aelodau eraill o'r grŵp chwilio am eitemau addas mewn papurau newydd. cylchgronau neu raglenni teledu, darllen ar goedd, chwarae rôl ac ati.

Ni chynhwyswyd gweddïau yn ystod y cyfarfodydd, am ein bod yn tybio y bydd gan y grwpiau neu eu harweinwyr eu syniadau eu hunain am yr hyn a fydd yn addas iddynt hwy. Sut bynnag, fe welir bod llawer o ddeunyddiau'r cwrs yn cynnwys themâu at weddi a myfyrdod a gellir yn aml eu datblygu'n weddïau eu hunain.

Gan mai amcan y cwrs yw adeiladu ein disgyblaeth bersonol a'n bywyd cyffredin yng Nghrist, y mae yma ac acw awgrymiadau at fyfyrion ar y goblygiadau ymarferol i ni, ein heglwysi a'n cymunedau. Ar ddiwedd y sesiwn olaf y mae rhestr wirio fer yn gofyn sut, ar derfyn y Garawys, yr ydym yn deall 'rhyddid' – ac i ble y gobeithiwn fynd nesaf.

Adnoddau pellach

Gwneir nifer o awgrymiadau at ddarllen pellach yn y deunydd, a chyfeirir at rai adnoddau defnyddiol eraill ar-lein. Rhoddir ffynonellau dyfyniadau o bwys mewn troednodiadau.

Am gyflwyniad i gefndir Bonhoeffer awgrymir y cyhoeddiadau diweddar a ganlyn:

Keith Clements, *Bonhoeffer and Britain* (CTBI Publications 2006) a
The SPCK Introduction to Bonhoeffer (SPCK 2010).

Gillian Court, *His Heart of Flesh* (CTBI Publications 2006)

Ferdinand Schlingensiepen *Dietrich Bonhoeffer 1906-1945* (T&T Clark 2010).

Bonhoeffer: cyflwyniad byr

Nid pawb fydd yn gyfarwydd â Bonhoeffer, nac ag amser i ddarllen amdano. Dyma amlinelliad byr o'i fywyd a'i feddwl.

Ganed Dietrich Bonhoeffer yn 1906 i deulu clòs, diwylliedig, dosbarth uwch, a'i fagu yn Berlin. Penderfynodd pan oedd yn fachgen ei fod am fod yn weinidog ac yn ddiwinydd a bu'n fyfyrwr brwd, gan ennill doethuriaeth pan oedd yn 21 mlwydd oed. Astudiodd yn Rhufain ac yn yr Unol Daleithiau yn ogystal ag yn yr Almaen ac yn 1931 dechreuodd ddarlithio ym Mhrifysgol Berlin. Yn yr un flwyddyn ymunodd â'r mudiad heddwch eciwmenaidd ac ymrwymo, mewn ufudd-dod diamwys i'r Bregeth ar y Mynydd, i wrthwynebu trais. Credai hefyd fod yn rhaid i'r eglwys ei hail-leoli ei hun o blaid y tlodion a'r gorthrymedig a dewisodd weithio mewn plwyf difreintiedig, dosbarth gweithiol yn Berlin. Mynnai'r ddiwinyddiaeth a ddysgai mai yn y Beibl y datguddir Duw – ond datguddiad ydyw a ddaw'n real ac yn ddiriaethol yn Iesu Grist, canolbwynt bywyd dynolryw. Ynndo ef y gwelir holl fywyd y ddynolryw fel y dylai fod.

Yr oedd ef a'i deulu'n ffeiddio at ddyfodiad Hitler i rym yn 1933, y sefydlu unbennaeth a'r ymosodiadau cynnar ar yr Iddewon. Daeth yn ffigwr radical a diflewyn-ar-dafod yn yr Eglwys Gyffesiadol, yr adran o Brotestaniaeth a wrthsafai'r ymdrechion i 'Natsieiddio'r eglwys. Am 18 mis yn 1933-35, fodd bynnag, bu'n weinidog ar ddau blwyf Almaenig yn Llundain. Sefydlodd yno sawl cyfeillgarwch eciwmenaidd gwerthfawr, yn enwedig gyda George Bell, Esgob Chichester. Yn 1935 galwodd yr Eglwys Gyffesiadol ef yn ôl i'r Almaen i gyfarwyddo ei choleg hyfforddi anghyfreithlon yn Finkenwalde ar arfordir y Baltig. Datblygodd y coleg i fod nid yn unig yn fan hyfforddi ymgeiswyr am y weinidogaeth ond hefyd yn fath o gymuned 'fynachaidd' a oedd yn beth newydd ym Mhrotestaniaeth yr Almaen. Yma yr ysgrifennodd ddau o'i lyfrau pwysicaf, *Discipleship* (y rhoddwyd iddo'r teitl *Cost of Discipleship* mewn argraffiadau Saesneg cynnar) a *Life Together*. Credai fod Protestaniaid yr Almaen wedi anghofio gwir ddisgeidiaeth Martin Luther ac wedi dewis gras 'rhaf' yn lle gras 'drud', wedi gosod dinasyddiaeth ddiymdrech yn lle disgyblaeth dan y groes ac felly wedi cyfaddawdu'n hawdd â Hitler. Yn 1937 caewyd Finkenwalde gan y Gestapo, ond parhawyd i hyfforddi ymgeiswyr yn ddirgel.

Fel y dynesai'r rhyfel, synhwyrai Bonhoeffer y gallai gael ei alw i'r fyddin ond gwyddai na ddeallai'r rhan fwyaf, hyd yn oed yn yr Eglwys Gyffesiadol, wrthwynebiad cydwybodol. Felly, yn haf 1939 trefnodd cyfeillion ym Mhrydain ac America iddo fynd i America am gyfnod amhenodol. Yn fuan iawn ar ôl cyrraedd yno, fodd bynnag, penderfynodd fod yn rhaid iddo ddychwelyd adref, er gwaetha'r peryglon, cyn i'r rhyfel gychwyn. Wedi cyrraedd yr Almaen gallodd barhau i hyfforddi ymgeiswyr er bod y cyfyngu ar ei symudiadau a'i siarad cyhoeddus yn tynhau. Yn hydref 1940 cytunodd ag awgrym ei frawd-yng-nghyfraith, Hans von Dohnanyi, un o arweinwyr gwrthwynebiad dinasyddion cyffredin yr Almaen i Natsiaeth, i fod yn rhan o'r cynllwyn i ddymchwel Hitler. Ei brif swydd ef fyddai cysylltu â gwledydd y cynghrair, trwy ei gysylltiadau eciwmenaidd, i roi gwybod iddynt am y gwrthwynebiad ac i geisio'u cefnogaeth i lywodraeth an-Natsiaidd pe dymchwelid Hitler. Medrodd wneud hynny ar sawl taith i wledydd niwtral, y fwyaf dramatig ohonynt i Sweden yn 1942, lle y cyfarfu â'r Esgob Bell. Diau bod cymryd rhan mewn cynllwyn o'r fath yn gam difrifol i un a fuasai cyn hynny o blaid didreisedd ond, ac yntau'n gwybod – yn well na'r rhan

fwyaf o bobl yr Almaen ar y pryd – raddfa erchyll troseddau'r Natsïaid, yn enwedig yn erbyn yr Iddewon, gwyddai Bonhoeffer fod yn rhaid dewis rhwng yr euogrwydd o gynllwynio i lofruddio a'r euogrwydd mwy o wneud dim pan oedd miliynau'n cael eu lladd. Dyma gefndir ysgrifennu ei lyfr *Ethics*, na orffennodd mohono.

Erbyn dechrau 1943 yr oedd Bonhoeffer dan amheuaeth gynyddol o ddefnyddio amrywiol ystrywiau i osgoi gorfodaeth filwrol a hefyd (yn gwbl gywir) o gynorthwyo rhai Iddewon i ddianc i'r Swistir. Ym mis Ebrill 1943 fe'i harestiwyd a'i garcharu yng Ngharchar Milwrol Tegel yn Berlin. Yr oedd hyn yn ofid chwerw i un a oedd yn mwynhau rhyddid ac a oedd mor fywiog – yn gorfforol gryf ac yn artistig ddawnus (mor fedrus ar y cwrt tennis ag ar y piano), wedi ymroi i bethau da bywyd ac i'w gyfeillion a'i deulu, ac wedi dyweddio'n ddiweddar â merch o'r enw Maria von Wedermeyer, a oedd yn llawer ieuangach nag ef. Am amryw o resymau ni ddygwyd achos yn ei erbyn, a bu'n gaeth am fisoedd lawer, pan mai'r perygl mwyaf iddo oedd nid y Gestapo na'r SS ond y bomio ar Berlin gan y cynghreiriaid. Caniateid iddo dderbyn llythyrau a rhoddion, a châl ei deulu a'i gyfeillion a'i gariad ymweld ag ef. Tua diwedd 1943 dechreuodd ohebu'n ddirgel â chyfaill agos a chyn-fyfyriwr iddo, Eberhard Bethge. Ddiwedd Ebrill 1944 aeth y llythyrau hyn ar drywydd diwinyddol newydd pan ddechreuodd archwilio 'Pwy yw Iesu Grist i ni heddiw?' a beth yw gwir natur ffydd Gristnogol mewn 'byd a ddaeth i oed', lle y mae pobl wedi tyfu allan o grefydd. Sut beth fyddai 'Cristnogaeth ddigrefydd'? Dyma'r llythyrau a achosodd y fath gynnwrf pan gyhoeddwyd hwy wedi ei farw.

Ar 20 Gorffennaf 1944 ceisiodd Claus von Stauffenberg ladd Hitler – a methu. Cynyddodd yr amheuaeth o bawb a ddrwgdybid o fod yn annheyrngar i'r drefn ac yn yr hydref daethpwyd o hyd i dystiolaeth bendant yn erbyn Bonhoeffer a'i gymdeithion. Trosglwyddwyd ef i bencadlys y Gestapo yn Berlin i'w holi ymhellach, ac yna, yn gynnar yn 1945, i wersyll carchar Buchenwald. Yn fuan wedi'r Pasg fe'i dygwyd, gyda charcharorion dethol eraill, i Bafaria. Ar y Pasg Bach aeth y Gestapo ag ef i wersyll dienyddio Flossenbürg. Gyda chwe chynllwynwr arall, wynebodd lys rhyfel ac fe'i cafwyd yn euog o 'uchel frad'. Y bore trannoeth, 9 Ebrill, crogwyd ef a gweddill y grŵp. Yr oedd yn 39 oed, ac nid oedd ond prin fis hyd ddiwedd y rhyfel yn Ewrop. Roedd ei frawd Klaus a'i frodyr yng nghyfraith Hans von Dohnanyi a Rüdiger Schleicher hefyd ymhlith y llaweroedd a fu farw yn nialedd olaf Hitler.

Ar ôl y rhyfel casglodd Eberhard Bethge y gweithiau a ysgrifennodd Bonhoeffer yn y carchar, a'i *Ethics* anorffenedig, a'u cyhoeddi. Cyfieithwyd y rhain, a'i holl weithiau eraill, i sawl iaith a chawsant ddylanwad mawr ar ddiwinyddiaeth ledled y byd ac mewn sawl traddodiad crefyddol. Cydnabyddir bod Dietrich Bonhoeffer yn un o Gristnogion mwyaf yr 20^{fed} ganrif. Y mae llawer o'i ganfyddiadau proffwydol yn aros i'w harchwilio a deil ei fywyd a'i farwolaeth yn ysbrydoliaeth ac yn her. Y mae cofgolofn iddo, a naw o ferthyron eraill yr 20^{fed} ganrif, uwchben drws gorllewinol Abaty Westminster; fe'i dadorchuddiwyd gan y Frenhines Elisabeth II yn 1998.

Am fwy o wybodaeth neu wybodaeth fwy diweddar am gyhoeddiadau Bonhoeffer, astudiaethau arno a digwyddiadau amdano, ewch i wefan Cymdeithas Ryngwladol Bonhoeffer: <http://dietrichbonhoeffer.org>. Y digwyddiad mawr nesaf yw XI^{fed} Cyngres Bonhoeffer a gynhelir yn Sigtuna, Sweden, 27 Mehefin-1 Gorffennaf 2012 ar y thema 'Ffon yn yr Olwyn: Ailystyried Gwleidyddiaeth yn Niwinyddiaeth Bonhoeffer'.

Cydnabyddiaethau

Cydnabyddir yn ddiolchgar Fortress Press, Minneapolis am ganiatâd i ddyfynnu o The Dietrich Bonhoeffer Works, English Edition, cyfrolau 5 ac 8; ac Isobel de Gruchy (Hermanus, De Affrica) am gael defnyddio pedair o'i cherddi o In Well and In Woe.

Cynorthwyodd llawer o bobl i baratoi'r cwrs. Cafwyd sylwadau buddiol gan gylich eang o gyfeillion a chydweithwyr yr ymgynghorwyd â hwy ar y syniad gwreiddiol. Am gyfrannu at y deunydd a gynigir yn awr, neu am awgrymu cyfranwyr a ffynonellau, rhaid diolch yn arbennig i: Gethin Abraham-Williams, Christopher Bradnock, Donald Bruce, Philip Clements-Jewery, Alec Gilmore, Martyn Halsall, Gordon Holmes, Michael Jackson, Nigel Jones, Hayley Matthews, Helen Matthews, Donald Norwood, Ruth Tetlow, Elizabeth Welch a'r ddwy ferch a gyfeiriai atynt eu hunain yn wylaidd fel 'Beti' a 'Sali'.

Yn olaf, y mae dyled fawr i staff CTBI am gyngor a chymorth.

Keith Clements – bywgraffiad

Gweinidog gyda'r Bedyddwyr yw Keith Clements. Gydol ei yrfa bu'n ymwneud llawer â'r bywyd eciwmenaidd yn lleol a rhyngwladol. Ar ôl deng mlynedd yn y weinidogaeth leol bu o 1977 hyd 1990 yn Diwtor yng Ngholeg y Bedyddwyr ym Mryste ac yn dysgu hefyd yn Adran Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefydd Prifysgol Bryste. O 1990 hyd 1997 bu'n Ysgrifennydd Materion Tramor Cyngor Eglwysi Prydain ac Iwerddon, ac o 1997 hyd 2005 yn Ysgrifennydd Cyffredinol Cynhadledd Eglwysi Ewrop yn Genefa. Y mae wedi ysgrifennu a darlledu a chyhoeddi llawer. Yn ogystal â phedwar llyfr ar Dietrich Bonhoeffer y mae ei weithiau'n cynnwys *Learning to Speak - The Church's Voice in Public Affairs* a chofiant yr arloeswr eciwmenaidd J.H. Oldham, *Faith on the Frontier*. Gyda'i wraig Margaret y mae'n byw mewn 'ymddeoliad prysur' ger Bryste ac yn mwynhau darlithio mor bell ag Awstralia, Seland Newydd ac UDA, yn ogystal â gwyllo adar, canu yn y gymdeithas gorawl leol a dysgu llaweroedd o bethau gan ei wyrion.